



Themau - Themes

Mod i - *that I am*

Patrymau Iaith - Language patterns

Dych chi'n defnyddio 'bod' ar ôl 'dw i'n meddwl/siwr/gwybod' ac ati.
'Bod' is used after 'dw i'n meddwl/siwr/gwybod' etc.

Mae 'bod' yn cyfateb i 'that is' neu 'that was' yn Saesneg:

'Bod' corresponds to 'that is' or 'that was' in English.

Ydy Charlotte yn gwybod bod ysbryd yn y tŷ?

Does Charlotte know that there is a ghost in the house?

Oedd Charlotte yn gwybod bod ysbryd yn y tŷ?

Did Charlotte know that there was a ghost in the house?

Mae 'bod' yn treiglo gyda rhai rhagenwau. Dych chi ddim yn clywed y rhagenwau ar lafar yn aml iawn.

'Bod' mutates with some personal pronouns. You do not hear these pronouns in speech very often.

(fy) mod i

(dy) fod ti

(ei) fod e

(ei) bod hi

(ein) bod ni

(eich) bod chi

(eu) bod nhw

mod i - *(that) I am / was*

Dw i'n meddwl mod i'n well. *I think (that) I'm better.*

fod ti - *(that) you are / were*

Do'n i ddim yn gwybod fod ti'n ei nabod e. *I didn't know (that) you knew him.*

fod e - *(that) he is / was*

Ro'n i'n gwybod fod e'n dipyn o 'gasanova'. *I knew (that) he was a bit of a 'casanova'.*

bod hi - *(that) she is / was*

Dwedodd hi bod hi eisiau tŷ mawr. *She said (that) she wants a big house.*

bod chi - *(that) you are / were*

Mae'n swnio fel bod chi wedi cael tipyn o ddadl.

It sounds like you've had quite an argument.

bod nhw - *(that) they are / were*

Basai holl ferched y dre yn gallu dweud bod nhw'n hen gariadon iddo fe.

All the town's women could say they were an (old lover) ex of his.

Tasgau - Tasks

Tasg sain 1 / Audio task 1

Cywir neu anghywir? Rhowch dic (✓) neu groes (✗) ar ôl y brawddegau hyn.
Right or wrong? Put a tick (✓) or a cross (✗) after these sentences.

Roedd Dic yn arfer byw drws nesa i Nia.
Roedd Delyth yn hen gariad i Dic.
Roedd llawer o gariadon gyda Dic.
Mae Richard a Charlotte wedi priodi eleni.
Maen nhw wedi prynu tŷ yn stryd Nia.
Maen nhw'n symud wythnos nesa.
Mae ysbryd Josephine yn y ficerdy.

Tasg sain 2 / Audio task 2

Cywir neu anghywir? Rhowch dic (✓) neu groes (✗) ar ôl y brawddegau hyn.
Right or wrong? Put a tick (✓) or a cross (✗) after these sentences.

Roedd hi wedi trefnu mynd i dŷ bwyta Eidalaid gyda John.
Dwedodd John fod e'n gwario gormod.
Mae hi wedi prynu dillad bob wythnos.
Roedd hi'n grac gyda fe.
Dwedodd e fod e wedi cael sianel chwaraeon i'r plant.
Maen nhw'n hoffi gwylio rygbi.
Mae'r ddau yn mynd allan ond hi sy'n talu.

Sgript Sain 1 - Audio Script 1

- Nia:** Helo Delyth. Sut wyt ti te?
- Delyth:** O iawn diolch, Nia. A ti?
- Nia:** Wel, roedd annwyd arna i, ond dw i'n meddwl mod i'n well heddiw.
- Delyth:** O da iawn. Hei! Gwelais i Dic ddoe.
- Nia:** Dic?
- Delyth:** Ie, Dic. Ro'n i'n meddwl fod e'n arfer byw drws nesa i ti.
- Nia:** O! Dic Lewis.
- Delyth:** Richard Lewis nawr, dim Dic Lewis!
- Nia:** Do'n i ddim yn gwybod fod ti'n ei nabod e.
- Delyth:** Do't ti ddim yn gwybod mod i'n hen gariad iddo fe?
- Nia:** O wel, Basai pob merch yn y dre'n gallu dweud bod hi'n hen gariad i Dic!
- Delyth:** Ro'n i'n gwybod fod e'n dipyn o 'gasanova'
- Nia:** Ydy e wedi priodi nawr te?
- Delyth:** Ydy, dwedodd e fod e wedi priodi Charlotte llynedd. Dwedodd e hefyd bod nhw wedi prynu tŷ yn y dre, a bod nhw'n symud i mewn wythnos nesa.
- Nia:** Ddim i'n stryd ni gobeithio!
- Delyth:** O na! Dwedodd e fod Charlotte wedi syrthio mewn cariad â'r hen ficerdy.
- Nia:** Yr hen ficerdy!
- Delyth:** Ydy Charlotte yn gwybod bod ysbryd yn y tŷ? Whw.w..w.w!!
- Nia:** Wrth gwrs - ysbryd Josephine Stephens. Maen nhw'n credu bod rhywun wedi ei lladd hi yn y ficerdy yn 1769.
- Delyth:** Ych a fi!
- Nia:** Wel, dyna fe. Bydd Dic.. sori..... Richard Lewis yn byw yn y ficerdy gyda dwy fenyw!
- Delyth:** Hy! Dim byd newydd fanna te!

Geirfa

nabod - *(to) know (person)*

priodi - *(to) marry*

syrthio - *(to) fall*

ficerdy - *vicarage*

ysbryd - *ghost*

wedi cael ei lladd - *been killed*

dim byd newydd fanna te - *nothing new there then*

Sgript Sain 2 - Audio Script 2

Hannah: Dyma ni, Bethan. Te i fi a choffi i ti.

Bethan: O diolch, Hannah. Wyt ti'n mynd mas heno?

Hannah: Ro'n i wedi trefnu bod ni'n mynd i *Gios*, y tŷ bwyta Eidalaidd...

Bethan: Ond?

Hannah: Ond ...doedd John ddim eisiau mynd.

Bethan: Pam?

Hannah: Dwedodd e bod ni'n gorfod bod yn fwy gofalus gydag arian.

Bethan: Ond mae'n braf cael pryd o fwyd ma's weithiau.

Hannah: Yn union! Dwedodd John mod i'n gwario gormod o arian ar ddillad!

Bethan: Naddo!

Hannah: Do! A dw i ddim wedi prynu dillad newydd ers ...wel ers wythnosau!

Bethan: Do't ti ddim yn hapus te!

Hannah: Ro'n i'n grac iawn! Dwedais i wrtho fe fod e'n gwario gormod o arian ar sianeli chwaraeon ar y teledu!

Bethan: Beth ddwedodd e?

Hannah: Dwedodd e fod e wedi cael Sky Sports i'r plant.

Bethan: I'r plant?

Hannah: Ie, oherwydd bod nhw'n hoffi gwyllo pêl-droed!

Bethan: Mae'n swnio fel bod chi wedi cael tipyn o ddadl.

Hannah: Do. Dwedais i basen ni'n hapus i beidio â mynd am bryd o fwyd tasai fe'n canslo Sky Sports.

Bethan: A ...?

Hannah: A dyn ni'n mynd i *Gios* heno a fe sy'n talu!

Geirfa

trefnu - *(to) organise*

Eidalaidd - *Italian*

gorfod - *(to) have to*

gofalus - *careful*

yn union - *exactly*

gwario - *(to) spend money*

grac - *angry*

swnio - *sounds like*

dadl - *argument*

Atebion - Answers

Tasg sain 1 / Audio task 1

Roedd Dic yn arfer byw drws nesa i Nia. ✓

Roedd Delyth yn hen gariad i Dic. ✓

Roedd llawer o gariadon gyda Dic. ✓

Mae Richard a Charlotte wedi priodi eleni. ✗

Maen nhw wedi prynu tŷ yn stryd Nia. ✗

Maen nhw'n symud wythnos nesa ✓

Mae ysbryd Josephine yn y ficerdy. ✓

Tasg sain 2 / Audio task 2

Roedd hi wedi trefnu mynd i dy bwyta Eidalaidd gyda John. ✓

Dwedodd John fod e'n gwario gormod. ✗

Mae hi wedi prynu dillad pob wythnos. ✗

Roedd hi'n grac gyda fe. ✓

Dwedodd e fod e wedi cael sianel chwaraeon i'r plant. ✓

Maen nhw'n hoffi gwyllo rygbi. ✗

Mae'r ddau yn mynd allan ond hi sy'n talu. ✗